

Rhybudd Preifatrwydd Data Ysgolion (Covid-19) – a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru - i'w ddarllen ar y cyd â'r Rhybudd Preifatrwydd Ysgolion

Casglu data nodweddion personol a phresenoldeb oddi wrth ysgolion o fis Medi 2020

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu ystod eang o ddata am ddisgyblion ar sail flynyddol, a chaiff hyn ei esbonio'n fanylach yn y rhybudd preifatrwydd hwn.

Oherwydd y pandemig Covid-19 ac ysgolion yn gorfod addasu i ffyrdd newydd o weithio, rydym angen gallu casglu data presenoldeb yn amlach nag unwaith y flwyddyn. Bydd casglu gwybodaeth ddiweddar yn cefnogi Llywodraeth Cymru ac yn cyflwyno'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom ni i ddeall effaith y pandemig Covid-19 ar bresenoldeb a sut y gallwn gefnogi ysgolion.

Pa mor aml ydym ni'n casglu'r data hwn?

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw amllder y casglu dan arolwg rheolaidd. Yn y lle cyntaf, bydd y data'n cael ei gasglu pob wythnos ond efallai y bydd angen i ni gasglu'r data yn fwy rheolaidd.

Ar gyfer pa ddisgyblion ydym ni'n casglu data?

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data ar gyfer pob disgybl mewn ysgol a gynhelir o fis Medi 2020.

Pa wybodaeth ydym ni'n ei gasglu?

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu'r wybodaeth ganlynol amdanoch chi bob wythnos:

- Rhif Unigol y Disgybl (RhUD)
- Enw cyntaf
- Enw(au) canol
- Cyfenw
- Rhyw
- Dyddiad Geni
- Cod Post Cartref
- Cefndir ethnig
- Cymhwyster am brydau ysgol am ddim
- Anghenion dysgu ychwanegol
- Saesneg fel iaith ychwanegol
- Cod presenoldeb ar gyfer pob sesiwn hanner diwrnod

Pam ydyn ni'n casglu'r wybodaeth hon?

Mae angen y wybodaeth hon fel rhan allweddol o'n hymateb a'n gwaith cynllunio yn ystod y pandemig Covid-19 parhaus. Bydd y data yn cael ei gasglu pob wythnos i sicrhau fod y data diweddaraf ar gael i gyflwyno gwybodaeth ar gyfer ein hymateb. Defnyddir y data er dibenion ystadegol ac ymchwil yn unig ac ni fydd unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud amdanoch chi trwy ddefnyddio'r data hwn.

Sut fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth hon?

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data yn yr un ffyrdd ag yr ydym wedi'u rhestru yn ein prif rybudd preifatrwydd.

A fyddwn yn rhannu'r data?

Efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu'r wybodaeth hon gyda'r sefydliadau hynny a restrir yn y prif rybudd preifatrwydd.

Pa mor hir fyddwn ni'n cadw'r wybodaeth amdanoch chi?

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r data sy'n eich dynodi chi tan y byddwch yn 25 mlwydd oed.

Beth yw'r sail gyfreithiol dros gasglu'r data hwn?

Mae Adran 538 Deddf Addysg 1996 yn darparu'r sail gyfreithiol dros gasglu'r data hwn. Mae hyn yn gofyn i ysgolion wneud adroddiadau a dychwelyd data o'r fath, a chyflwyno gwybodaeth o'r fath, i Weinidogion Cymru gan y gall hyn fod yn ofynnol ar gyfer eu swyddogaethau o ran addysg.

Eich hawliau dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Mae eich hawliau'n cael eu hesbonio'n llwyr yn y prif rybudd preifatrwydd.